
Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Nodyn Briffio 7 Munud ADUS

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, e-bostiwch: ADUSCymru@llyw.cymru




## CEFNDIR ADUS

Creu proses adolygu sengl lle bo galw am ddull amlasiantaeth. Bydd y broses yn ymgorffori'r prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiad Domestig; Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio ymarfer proffesiynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru.

## Y CYNNYDD HYD YMA

- Mae'r rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy bellach yn cael ei phoblogi gyda'r enwebiadau cyntaf.
- Parhewch i anfon eich enwebiadau i mewn i sicrhau eu bod yn cael eu nodi ar gyfer rownd hyfforddi ADUS ym mis Chwefror.

## Y CAMAU NESAF

- Rydym yn trefnu sesiynau briffio misol gyda'r Rheolwyr Busnes RSB a rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn barod ar gyfer trosglwyddo i weithredu.

## DYSGU GAN ERAILL

- Yn ddiweddar, cyhoeddodd Prifysgol Melbourne, Awstralia adroddiad byr ar brofiadau plant a phobl ifanc sydd wedi cael profedigaeth oherwydd llofruddiaethau gan bartner eu rhiant.
- Mae prosiect HALT Prifysgol Metropolitan Manceinion wedi cyhoeddi pedwar papur ymchwil thematig ar gyfer y Comisiynydd Cam-drin Domestig ar argymhellion DHR: Roedd y rhain yn edrych ar themâu ar draws Cyfiawnder Troseddol; Iechyd Corfforol a Meddyliol; Gwasanaethau Plant; a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Cynhelir cyfres o weminarau ar yr adroddiadau hyn yn y Flwyddyn Newydd. Cysylltwch â swyddfa'r DAC i gael rhagor o wybodaeth.

## GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUOEDD

- Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ar 30 Tachwedd i ddatblygu'r Cynllun Ymgysylltu. Disgwylir sylwadau yn ôl ar y drafft cychwynnol erbyn 18 Rhagfyr ac ar ôl hynny cynhyrchir fersiwn ddiwygiedig i'w hystyried ymhellach.

## DIWEDDARIAD AR STORFA DDIOGELU CYMRU

- Ar ôl dwy rownd o brofion defnyddwyr wyneb yn wyneb, cynhelir cam pellach o brofion ar-lein. Cysylltwch ag ADUSCymru@llyw.cymru os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan.
- Byddwn yn paratoi proses Cofrestru Defnyddwyr Storfa Ddiogelu Cymru yn y Flwyddyn Newydd yn barod i'w phrofi ochr yn ochr â'r cam profi nesaf.

## DIWEDDARIAD RHAGLEN HYFFORDDIANT ADUS

- Pecyn hyfforddi wyneb yn wyneb a ddatblygwyd ar gyfer cadeiryddion, adolygwyr ac aelodau'r Panel, gydag e-ddysgu atodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau'r Panel.
- Cynhelir y sesiynau peilot cyntaf ar gyfer cadeiryddion, adolygwyr ac aelodau'r Panel ym mis Chwefror gyda hyfforddiant llawn wedi'i drefnu i'w gyflwyno rhwng mis Ebrill a mis Medi.
- System fonitro a gwerthuso yn cael ei datblygu i olrhain effeithiolrwydd yr hyfforddiant.
- Aelodau'r Grŵp Llywio Hyfforddiant yn gweithio i gryfhau cysylltiadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol o fewn datblygiad a darpariaeth hyfforddiant.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**